PROSIECT WICKED

ADRODDIAD CHWARTER BLWYDDYN - HYDREF – RHAGFYR 2008
CRYNODEB GWEITHREDOL

TIR COED

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

COMIC RELIEF

The Princess Royal Trust for Carers

Hilton IN THE COMMUNITY FOUNDATION

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

1. Trosolwg o Weithgareddau Tir Coed:

1. Dan arweiniad yr ysgrifennydd, John Wilding, a chynhaliaeth rheolaidd y Cadeirydd, Simon Hewitt, bu Criw Tir Coed yn cyfarfod yn fisol i drafod cynnydd a materion cyfoes.

2. Gofynnwyd i Gwyneth ganolbwyntio canran o'i hamser ar waith strategaethol a chodi arian ar mwyn sicrhau dyfodol Tir Coed wedi diwedd cyfnod prosiect WICKED; oherwydd hyn mae hi wedi trosglwyddo'r cyfrifoldebau am rai o fentrau WICKED i Angie. Rhoddwyd Lwfans Cyfrifoldebau Ychwanegol i Gwyneth ers mis Medi, a delir o'r Gyllideb sydd heb ei gyfyngu.

3. Mynychodd Becky ddiwrnod hyfforddiant, â drefnwyd gan CGCC, ar y newidiadau sydd ar ddod i system archwilio'r Swyddfa Cofnodion Troseddu (SCT/CRB). Mae'r Ddeddf Diogeli Grwpiau Bregus 2006 yn cyflwyno cynllun newydd (yr **Awdurdod Diogeli Annibynnol – ADA/ISA**) â weithredir yn raddol[1] o fis Hydref 2009. Prif nod yr ADA ydyw atal unigolion anaddas rhag gweithio gyda phlant ac oedolion bregus. Cofnod ar-lein sydd yn cael ei ddiweddaru yn gyson yw'r ADA, mae'n cymeradwyo unigolion sydd heb eu heithrio yn unig (ystyrir bod yr unigolion a eithrir yn anaddas i weithio gyda phlant ac unigolion bregus o ystyried eu cofnod hanesyddol). Dim ond dweud os oes unigolyn wedi eu heithrio ai peidio wna'r ADA ac maer' archwiliad SCT yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn canfod manylion/natur unrhyw droseddau.

   [1]gweithredu graddol:
   - **O'r 12fed o Hydref 2009** bydd yn rhaid i bawb sydd yn ymgeisio am swydd newydd geisio am gofrestriad ADA. Ni all cyflogwyr na sefydliadau gwirfoddol sydd yn gweithio gyda phlant ac oedolion bregus recriwtio unigolion sydd heb eu cofrestru â'r ADA.
   - **O 2010** Bydd yn rhaid i weithwyr a gwirfoddolwyr cynfodol sydd heb archwiliad CRB geisio am gofrestriad ADA. Bydd yn rhaid i weithwyr a gwirfoddolwyr cynfodol â chanddynt archwiliadau SCT geisio am gofrestriad ADA, yn cychwyn gyda'r unigolion â'r archwiliadau SCT hynaf.

4. Cyfarfu Simon, John a Gwyneth gydag Elin Jones, y Gweinidog Materion Gwledig, yng nghwmni Mike Pitcher o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd Gwyneth wedi paratoi cyflwyniad Pwerbwynt ar waith Tir Coed, a diddordebodd y gweinidog yn fawr ar hyn. Dilynwyd y cyflwyniad gan drafodaeth ar sut roedd Cronfeydd Cydgyfeiriant Blaenoriaeth 1 yn eithrio sefydliadau lleol a rhanbarthol rhag ddod yn bartneriaid prosiect, fel â brofwyd gan Tir Coed.

5. Cyfarfu Simon, John a Gwyneth gyda Michael Norman a Jane Holloway o Ymddiriedolaeth Penllergare. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gofalu am Ystâd Penllergare, sydd mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf ger Abertawe. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn nawdd o'r Loteri Genedlaethol i ddarparu rhaglenni addysgol ac adeiladu sgiliau ar yr ystâd, ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn dysgu o brofiad Tir Coed ar achredu cymwysterau Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA/OCN).
   O ganlyniad i'r cyfarfod, lluniodd Gwyneth 2 gynnig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth:

6. Lansiwyd cynllun prentisiaeth y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer Crefftwyr Coetirol gydag amserlen gyfyng iawn ar gyfer ymgeisio ym mis Tachwedd. Cafodd Gwyneth ei

chynddeiriogi gan y maen prawf ar gyfer ymgeiswyr a ddywedai bod yn rhaid i bob ymgeisydd gael "Drwydded Yrru Llawn", oherwydd teimlai bod hyn yn eithrio'r rhan fwyaf o ieuenctid (sydd yn methu fforddio talu am wersi gyrru na rhedeg car).

7. Mynychodd John Wildig cyfarfod blynyddol rhanddeiliaid Coed Cymru ar ran Tir Coed.

8. Cyhoeddwyd erthygl tudalen gyfan ar waith Tir Coed trwy brosiect WICKED yn y Cambrian News ym mis Rhagfyr.

9. Bu Gwyneth yn paratoi rhan gyntaf y cais i *Right Here*, rhaglen a ariannir gan Sefydliad Paul Hamlyn a'r Sefydliad Iechyd Meddwl. Mae'r rhaglen yn bwriadu ariannu rhaglenni peilot ar gyfer sefydliadau sydd yn gweithio gyda ieuenctid 16 – 25 mlwydd oed, yn enwedig ieuenctid sydd wedi eu heithrio neu eu hymyleiddio. Y prif amcanion ydyw:
   - i gynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac i hyrwyddo iechyd meddwl da ymysg ieuenctid;
   - i ddarparu cynhaliaeth wedi ei dargedi ar gyfer ieuenctid sydd yn profi ffactorau a allent gyfrannu tuag at broblemau iechyd meddwl.

   Bydd yna wahoddiad i ymgeiswyr llwyddiannus geisio yn ail rhan y broses erbyn y 13eg o Chwefror.

10. Cynhaliwyd cyfarfod o'r tîm ariannol ym mis Tachwedd. Dyma'r rhagamcaniadau ar gyfer pob ariannwr hyd ddiwedd mis Mawrth 2009:
    CLF – ychydig o danwariant.
    CCC – wedi ei wario.
    Comic Relief – Cynlluniwyd ail ddathliad Mes ar gyfer Chwefror 2009 (er mwyn dod â'r gofalwyr ifanc sydd yn ran o WICKED at ei gilydd). Yn anffodus, oherwydd problemau staffio gyda chriw Caerfyrddin, gohiriwyd y dathliad tan gwyliau'r Pasg (bydd y problemau staffio wedi eu datrys erbyn hyn). Canlyniad hyn fydd tanwariant sydd yn gyfwerth â chost y dathliad, gobeithiwn gario hwn ymlaen hyd Ebrill 2009.
    Hilton – wedi ei wario.
    Gwirfoddolwyr y Mileniwm – ychydig o danwariant.

Rhwydwaith Coleg Agored:

Mynychodd Becky a Gwyneth gynhadledd y Rhwydwaith Coleg Agored ar ddarparu unedau RhCA ar gyfer criwiau wedi eu hymyleiddio.

Mae Angie wedi cwblhau ei hyfforddiant RhCA ar gyfer bod yn Ddilysydd Mewnol. Nawr mae'r 3 Swyddog Prosiect yn medru dilysu unedau RhCA yn fewnol.

Mae Becky wedi uwchraddio yr uned ar "Adeiladu Lloches Sylfaenol o Bren" i radd 2 (sydd yn gyfartal â TGAU gradd A – C), mae hwn wedi ei gymeradwyo gan RhCA.

Mae Becky wedi creu unedau credyd 10-awr Lefel 1 newydd ar Reoli Coetiroedd a Chrefft Coed ac wedi eu hanfon i'w cymeradwyo gan RhCA.

2. Gweithgareddau yn y bumed chwarter wedi eu rhestri dan fentrau unigol prosiect WICKED:

(Gan gynnwys cyrhaeddiad yn erbyn targedau ac adborth)

a) Cynllun MES

(Gweithgareddau seibiant i Ofalwyr Ifanc)

Gofalwyr Ifanc Powys:

Goroesi yn y Goedwig

Cynlluniwyd y gweithgaredd hwn ar gyfer mis Medi yn wreiddiol, ond bu'n rhaid ei ohirio oherwydd tywydd garw.
Er iddi fod yn oer, daeth chwe person ifanc dros 16 mlwydd oed i fynychu'r gweithgaredd. Bu'r ieuenctid yn dysgu sgiliau coedwriaeth, a cafodd y gweithwyr cynhaliol syndod wrth i'r ieuenctid greu cymeriadau a golygfeydd theatrig gan ddefnyddio dillad o'r safle. Anghofiwyd yr oerfel yn fuan iawn!
Dysgodd y criw:
i naddu a cherfio;
i gwympo Coed a materion diogelwch ac amgylcheddol cysylltiedig;
pum canllaw goroesi ar gadw'n gynnes;
sut i goginio ar dân gwersyll;
sut i ddefnyddio offer yn ddiogel;
sut i weithio yn rhan o griw a chydweithredu;
i adnabod sêr.

Addurniadau Nadolig o Helyg

Yn ystod mis Tachwedd mynychodd 2 Weithiwr Gweithgareddau o Bowys ddiwrnod hyfforddi ar ddefnyddio Helyg. Yn dilyn hyn gallant rhannu eu sgiliau newydd â'r Gofalwyr Ifanc mewn Nosweithiau Clwb bob pythefnos ar draws i'r sir.
Daeth hyfforddwr arbenigol i gynorthwyo pob Gweithiwr Ieuenctid ar eu nosweithiau Helyg cyntaf.
Gwnaed sêr Nadolig, coed, plu eira a phlatiau gan yr ieuenctid.

Gofalwyr Ifanc Ceredigion:

Addurniadau Nadolig o Ddeunyddiau Naturiol

Cynhaliwyd 3 sesiwn ar draws i'r wlad.
Dysgodd yr ieuenctid am ddefnyddio deunyddiau naturiol i greu dalwyr canhwyllau, bagiau pot-pourri, a sut i ddefnyddio moch bach y coed i ragweld glaw.
Buont hefyd yn mwynhau defnyddio gynnau glud ac yn dysgu sgiliau gwnio.

Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin:

Diwrnod Hwyl Galan Gaeaf yn y Goedwig

Cyfrannodd 10 gofalwr ifanc o 8 i 12 mlwydd oed yn y diwrnod o hwyl hyn ar thema Galan Gaeaf yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne. Bu'r plant yn dysgu am greu tanau gwersyll a defnyddio offer yn ddiogel, yn cerfio pwmpenni, yn creu gwe pry cop ac ysgubellau, yn paentio eu hwynebau ac arnofio afalau, a bu rhai yn dysgu sut i goginio ar y tân gwersyll gan goginio cawl pwmpen i bawb. Cyflwynwyd y weithgaredd mewn modd difyr ac amgen gan yr arweinydd, Jo Steadman; cafwyd helfa bwmpen. Cuddiwyd pwmpenni mewn llystyfiant ger coeden, gydag enw'r goeden ar fathodyn ar y pwmpenni, felly daeth y cyfranogwyr i ddysgu am goed mewn modd diddorol a difyr.

Gweithgareddau Coedlan Bae Morfa

Treuliodd 17 gofalwr ifanc ddiwrnod yng Nghanolfan Gweithgareddau Bae Morfa ym Mhentywyn gan brofi amryw o weithgareddau coetirol dan arweiniad hyfforddwyr y ganolfan. Treuliwyd y bore yn dringo ac abseilio ar safle hen chwarel mewn coedwig a threuliwyd y prynhawn ar gwrs ymosod mewn coedlan. Dysgodd y criw sut i ryngweithio yn ran o dîm mewn awyrgylch heriol. Trechodd y cyfranogwyr eu hofnau gan wynebu'r heriau – a bu'n achos i ymfalchïo i rai.

Gweithdai Helyg y Nadolig

Cyfranogodd 18 gofalwr ifanc rhwng 6 a 17 mlwydd oed mewn gweithdai helyg ar thema'r Nadolig yn y cyfnod cyn y Nadolig. Darparodd yr Hyfforddwr Helen Campbell weithdai ar 3 noson glwb gwahanol, un yng Nghaerfyrddin, un yn Llanelli a'r un arall yn Rhydaman. Dangoswyd i'r criwiau pa mor hyblyg oedd y gwiail helyg gan eu hybu i arbrofi a chreu siapiau syml ohonynt. Yna dangoswyd addurniadau a waned yn broffesiynol i'r criw er mwyn eu hysbrydoli i greu rhai eu hunain, tyfodd hyder pob un ohonynt wrth i'r weithgaredd mynd yn ei flaen. Roedd Helen yn hyblyg iawn i ddymuniadau'r criwiau, a bu rhai o'r gofalwyr ifanc nad oeddent eisiau creu addurniadau traddodiadol yn creu ffigyrau helyg rhyw 3 troedfedd o daldra a choed Nadolig. Aeth rhai cyfranogwyr â gwiail adref er mwyn gorffen yr eitemau a ddechreuwyd yn y gweithdy.

Gofalwyr Ifanc Sir Benfro:

Oherwydd gohiriadau yn y gorffennol a diffyg amser y Swyddogion Prosiect nid oes cynlluniau i gynnal mwy o weithgareddau gyda'r criw hwn ar hyn o bryd.

b) Menter Gweithio'r Goedwig

(Ar gyfer ieuenctid 16 i 19 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg, swydd, nac hyfforddiant.)

Powys

Cynhaliwyd sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig Powys yn ystod mis Hydref, a bu pum person ifanc yn cyfranogi. Dysgwyd sgiliau gweithio pren irlas i'r criw, er mwyn ei galluogi i greu lloches o bren yng ngardd Ponthafren yn Y Drenewydd (y ganolfan galw heibio iechyd meddwl).
Achredwyd adeiladu'r lloches gan RhCA. Enillodd dri o'r prentisiaid achrediad RhCA. Cyfeiriwyd y pedwerydd brentis i'r prosiect gan y Wasanaeth Troseddu Ieuenctid, ac ni wnaeth ymwneud â'r gweithgareddau o gwbl na chwblhau'r tasgau na'r taflenni gwaith angenrheidiol ar gyfer ennill achrediad. Cyfeiriwyd y pumed brentis gan Gyrfaoedd Cymru, roedd yn alluog iawn ac yn ymrwymedig iawn pan yn bresennol; ond roedd ei amgylchiadau personol yn anodd iawn ac roedd yna lawer o ddiwrnodau pan nad oedd yn bresennol i adeiladu'r lloches. Yn anffodus nid oedd yn bresennol am y 30 awr angenrheidiol ar gyfer yr uned RhCA ac felly nid enillodd yr achrediad..
Roedd yna dwf sylweddol yn hunanhyder un o'r prentisiaid a achredwyd. Ar y diwrnod cyntaf fe guddiodd dan ei got cwflog heb siarad ag unrhyw un, ond ar yr ail ddiwrnod dechreuodd sgwrsio â'r hyfforddwyr.

Ceredigion:

Darparwyd y cynllun Gweithio'r Goedwig hyn mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ran o'i Prosiect Cymunedol. Ymunodd Tir Coed â hwy i gynnig gweithgareddau, i ddarparu deunyddiau cynhaliol ac arbenigedd technegol, galluogodd hyn iddynt ddarparu prosiect mwy cymhleth. Cynigwyd y cyfle i'r cyfranogwyr ennill cymhwyster RhCA Lefel 1 mewn Adeiladu Lloches Syml o Bren.

Diben y prosiect arfaethedig oedd datblygu'r ardd bywyd gwyllt yng Nghanolfan Gweithgareddau Cymdeithasol Padarn (ar gyfer oedolion ag anabledd corfforol neu anabledd dysgu) yn Llanbadarn, Aberystwyth. Lluniwyd cynlluniau cymhleth wedi ymgynghoriadau gyda'r cleientiaid a'r staff o'r ganolfan.

Darparodd Bob Shaw a Tony Eames arbenigedd technegol ac arweinyddiaeth ar gyfer y prosiect. Cynigodd Dave Hoyle gynhaliaeth ymarferol a chyngor, gan weithredu yn aelod positif o'r criw. Roedd eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i ddatblygu sgiliau ymarferol ieuenctid a gadael iddynt brofi gweithgareddau newydd yn syfrdanol.

Dechreuodd y criw gydag hyfforddiant sylfaenol ar sut i ddefnyddio offer yn ddiogel, gweithio coed irlas, technegau malurio a thocio dros gyfnod o 2 ddiwrnod, er mwyn eu paratoi ar gyfer y prif brosiect. Roedd rhai o'r criw wedi ymgolli yn y weithgaredd gymaint nes bod yn rhaid eu gorfodi i stopio ar ddiwedd y dydd!

Cyflawnwyd cymaint yn ystod y prosiect hwn, penderfynom greu tystysgrifau arbennig er mwyn adnabod y safon uchel o 'Adeiladu Celfi Gwledig' a 'Ffens Postyn a Rheilen' a grëwyd. Rhoddwyd y rhain ynghyd â'r tystysgrifau RhCA yn y Cyflwyniad Diwedd Tîm gan ddiweddi prosiect llwyddiannus iawn mewn modd bositif dros ben.

Prosiect Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid

Mae Tir Coed yn gweithio gyda Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid (GTI) Ceredigion, yn ran o brosiect WICKED, i ddatblygu 2 beilot wedi eu achredu gan RhCA; bydd tystiolaeth a gesglir o'r peilotau hyn yn cael ei gyflwyno i ddarpar arianwyr gan y GTI gyda'r gobaith o ddarparu prosiectau pellach. Manylir ar y cyntaf o'r peilotau isod. Bydd yr ail beilot, yn canolbwyntio ar reoli coetiroedd, yn weithredol yn y gwanwyn.

Adeiladu yn y Gymuned:
Dros gyfnod o 12 diwrnod oer, gwlyb a gwyntog ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr, bu 4 person ifanc 13 a 14 mlwydd oed yn adeiladu storfa bren draddodiadol, yn cynnwys nenffyrch, ar Fferm Denmarc ger Llambed. Arweiniwyd y prosiect gan Jamie Miller ac fe'i gefnogwyd gan weithwyr y GTI. Cyfeiriwyd y 4 arddegwr gan adain Atal Troseddu'r GTI (nid oeddent yn droseddwyr, ond fe'u hadnabuwyd yn unigolion a oeddent yn debygol o droseddu). Nid oedd yn ddechrau da ar gyfer y prosiect, gyda phroblemau ynglŷn â deinameg y criw a bwlio. Erbyn y pedwerydd sesiwn, roedd yn amlwg bod angen mwy o gynhaliaeth arbenigol, a camodd Dave Hoyle i'r adwy mewn modd proffesiynol a chymwys. Hanner ffordd drwy'r cwrs, penderfynwyd tynnu un o'r criw allan o'r weithgaredd, oherwydd iddo aflonyddu ar gyfranogwyr eraill ac achosi risg o ran defnyddio offer mewn modd anniogel, a gofyn iddo adael. Nid penderfyniad hawdd oedd hwn, ond achosodd ei ymadawiad ddeinameg gweithio ac allbynnau cadarnhaol ar gyfer gweddill y criw.

Achredwyd y prosiect hwn; ceisiwyd ar gyfer 3 credyd RhCA yn yr uned 'Adeiladu Lloches Syml o Bren' ar gyfer pob cyfranogydd; enillodd 3 lefel 2 ac 1 lefel 1.

Rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm:

Rheolir y rhaglen gwirfoddoli hyn gan CGCC ac fe'i dargedir at ieuenctid rhwng 16 a 25 mlwydd oed; cofrestrwyd 3 person ifanc.

Mae un gwirfoddolwr, a fu'n cyfranogi yn rhaglen Gweithio'r Goedwig Powys yn 2008 yn cynorthwyo wrth sefydlu safleoedd ysgol y goedwig yn ardal Y Drenewydd;
Mae dau yn gwirfoddoli ar gyfer y Shared Earth Trust ar Fferm Denmarc gan gyflawni tasgau rheoli cefn gwlad a chynorthwyo cyfranogwyr o griwiau cymunedol mewn gweithgareddau addysg amgylcheddol.

Trwy rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm, gall Tir Coed gynorthwyo'r ieuenctid hyn gyda thrafnidiaeth, costau bwyd ac offer a chost unrhyw hyfforddiant sydd yn gysylltiedig â'u gweithgarwch gwirfoddol.

c) Menter Coed Call

(Ar gyfer ieuenctid 14-16 mlwydd oed sydd wedi, neu mewn perygl o, gael eu heithrio o'r ysgol.)

Powys

Mae yna ddau brosiect Coed Call yn weithredol ym Mhowys ar hyn o bryd:

1) prosiect a leolir yn bennaf yng **Nghoed Allt Goch**, coedlan gymunedol yn eiddo i Gyngor y Dref yn Llanidloes, gyda chriw o 9 disgybl o flwyddyn 11 Ysgol Uwchradd Llanidloes. Arweinir y criw gan ddau Weithiwr Ieuenctid.

Rhwng Medi a'r Nadolig bu'r criw yn:

- Creu cynhyrchion syml o bren;
- Profi sgiliau goroesi – coginio ac adeiladu lloches
- Dysgu ar iechyd a diogelwch yn y coed a defnyddio offer yn ddiogel;
- Ymchwilio poblogaeth adar y goedlan;
- Creu a chodi blychau adar.

2) prosiect a leolir yn bennaf yn **Ffridd Mathrafal**, coedlan a reolir gan y Comisiwn Coedwigaeth, gyda chriw o naw disgybl o flwyddyn 11 o Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion. Arweinir y criw gan ddau Weithiwr Ieuenctid.

Rhwng Medi a'r Nadolig bu'r criw yn:

- Sefydlu ardal gwersyll sefydlog – adeiladu cylch o goed;
- Adeiladu lloches dros dro;
- Adeiladu ardal i sychu coed tân;
- Creu eitemau unigol o bren;
- Dysgu ar iechyd a diogelwch yn y coed a defnyddio offer yn ddiogel;
- Adnabod coed;
- Asesu risg ar y safle;
- Dysgu technegau gweithio coed – hollti, llyfnu, drilio;
- Gwneud meinciau ar gyfer gardd yr ysgol.

Roedd y ddau griw uchod yn gweithio ar gyfer eu Gwobr Dug Caeredin efydd; mae prosiect Coed Call yn creu rhan o'r adran gwasanaeth/gwirfoddoli ar gyfer y Wobr.

Ceredigion:

Pen Yr Allt: Rheoli Coetiroedd a Chefn Gwlad – Medi i Rhagfyr

Roedd cychwyn y prosiect hwn yn llwyddiannus iawn, daeth 4 allan o'r 5 cyfranogydd gwreiddiol yn ôl wedi'r hanner tymor, wedi iddynt gyflawni cymhwyster RhCA mewn Adnabod Coed. Newidiodd un cyfranogydd i gwrs arall wedi cyfnod eithaf hir er mwyn dilyn trywydd a oedd yn gweddu yn well i'w ddiddordebau amaethyddol, ond yn anffodus nid allodd gyflawni'r ddogfennaeth RhCA terfynol, er iddo gyflawni'r holl waith blaenorol.

Roedd yna gynnwrf amlwg ymysg y cyfranogwyr trwyddi draw. Galluogodd hyn iddynt ddatblygu eu diddordebau a'u gwybodaeth ar weithgareddau coetirol gan brofi sesiynau

blasu i'w paratoi ar gyfer y cam nesaf. Daeth y 4 cyfranogydd yn ôl i ddilyn cwrs sgiliau coetir o fis Hydref hyd Rhagfyr. Buont yn cwblhau uned RhCA ar 'Greu Sietyn'.

Dysgu yn yr Awyr Agored: Bwyd a Thanwydd

Bu'r prosiect hwn yn weithredol am yr hanner tymor cyntaf yn unig. Unwaith eto bu'r cychwyn yn llwyddiannus, cwblhaodd 3 allan o'r 4 person ifanc y cymhwyster RhCA lefel 1 uchod.

Bu'r ieuenctid yn profi nifer o ddulliau gwahanol o goginio gan ddatblygu sgiliau i'w galluogi i gydosod a storio stofiau a thanwydd yn ddiogel. Bu'r criw yn trafod hylendid bwyd, creu prydau cytbwys a phwysigrwydd rhai bwydydd o ran egni tra'n cyfranogi mewn gweithgareddau awyr agored. Bu unigolion yn paratoi bwyd i bawb ei fwynhau yn rheolaidd a gwelwyd twf yn eu hyder o ganlyniad.

Profwyd nifer o weithgareddau eraill ynghyd â'r coginio gan gynnwys: defnyddio offer yn ddiogel, naddu offer, clirio mieri a llwybrau i'r guddfan gwylio adar a theithiau bywyd gwyllt.

Sir Gaerfyrddin:

Mynydd Mawr

Dechreuwyd y prosiect newydd hwn gyda brwdfrydedd gyda'r gweithwyr a ieuenctid yn darganfod gweithgareddau newydd ar safle'r Parc Coedwig.

Hyd yn hyn, mae 5 unigolyn wedi cyfranogi mewn amryw o ddiwrnodau cyflwynol. Daw'r disgyblion i gyd o Ganolfan Dysgu Pwll (Uned Cyfeirio Disgyblion newydd) ac mae ganddynt ystod o alluoedd, gymhelliant a galluoedd i ganolbwyntio, ond maent i gyd yn dangos diddordeb yn yr offer llaw ac maent yn awyddus i'w defnyddio.

Mae cynhaliaeth Dewi Wagstaff, Warden y Parc Coedwig, wedi bod yn hollbwysig yn y cam cychwynnol hyn. Mae yntau wedi arwain trafodaethau ar reoli coetiroedd ac wedi cynorthwyo wrth adnabod coed ar gyfer eu cwympo. Mae gallu'r unigolion i gydweithio wedi datblygu ac maent yn trafod syniadau ei gilydd ac yn cyfaddawdi er mwyn datrys problemau iddynt wynebu.

Yr allbynnau addysgol cyffredinol ydyw:

- Cyflwyniad i ddefnyddio offer yn ddiogel;
- Datblygu sgiliau gwrando wrth drafod defnyddio offer;
- Y gallu i gydweithio a datrys problemau;
- Datblygu sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio;

Sir Benfro:

Ysgol Penfro

Mae 6 person ifanc gydag amryw o anawsterau dysgu yn mynychu'r prosiect Coed Call hwn ar hyn o bryd, dan arweiniad y gweithwyr ieuenctid Anthony Harris a Melody Abbott. Mae'r criw wedi datblygu yn dda, gan wneud defnydd da o'r blanhigfa helyg ar Gomin Cilgeti; maent wedi cynhyrchu cawellau breuddwydion gan fynd ymlaen i greu clwydau a phalisau helyg, gyda chymorth yr arbenigwr ar helyg Jo Steadman. Bydd y criw Coed Call hwn yn dechrau ar uned lefel 1, 30 awr, o'r enw 'Celfyddyd Celf – Gwaith Pren', a fydd yn achredu'r gwaith helyg iddynt greu. Bu'r criw hefyd yn plannu coed ar y comin, yn creu blychau trychfilod ac yn ymhyfrydu mewn fforio byd natur ar y comin ac ar ymweliad â Choed Woodhouse ger Sain Clêr. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at eu gwobrau John Muir.

Ysgol Sir Thomas Picton

Mae'r criw hwn wedi bod yn un cryf o'r cychwyn. Dan arweinyddiaeth y Cynorthwywyr Dysgu Margaret Ridgeway ac Ian Gazette mae'r criw wedi ffynnu gan ffurfio cysylltiadau gydag amryw o asiantaethau, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, criw coetir Nant-y-Cwm, Sgiliau Sylfaenol Cymru a thirfeddianwyr lleol. Mae pob cyfranogydd wedi ennill uned RhCA lefel mynediad mewn Adnabod Offer, ar gyfer hyn buont yn creu chwe mainc yng Ngardd Natur yr ysgol (eu prif safle), gyda chymorth Dave Hoyle.

Bu'r criw yn gweithio yn eang gyda Haydn, warden y Parc Cenedlaethol, yn yr ysgol (yn creu llwybrau troed ac yn plannu coed) ac yn y Parc Cenedlaethol (yn cynnal a chadw llwybrau troed a chlirio llystyfiant). Gwnaed cyswllt arall â'r Parc Cenedlaethol pan aed i weithdy coedwig yng Nghilrhedyn lle bu'r disgyblion yn gwylio arddangosiad cwympo coeden, yn adeiladu clwyd ac yn cafnu arwyddion ar gyfer Gardd Natur yr ysgol. Mae'r prosiect wedi bod yn sbardun i'r disgyblion feddwl am opsiynau gyrfa wedi iddynt adael yr ysgol; mae eu cymhelliant a'u brwdfrydedd wedi arwain at syniadau am greu gweithdy coetirol yn yr Ardd Natur – Byddwn yn cadw llygad ar y datblygiadau!

Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Cynhaliol:

Hyfforddiant gweithwyr y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid:

Er mwyn paratoi at y peilot gyda GTI Ceredigion, bu 10 gweithiwr ar hyfforddiant sylfaenol ar sgiliau gweithio coed irlas a defnyddio offer yn ddiogel, a sut i drosglwyddo'r sgiliau hyn i ieuenctid. Cynhaliwyd y gweithdy yng Nghoed Tamsin ar y 30ain o Hydref dan arweiniad Bob Shaw a Jamie Miller. Er y bu'r hyfforddiant yn llwyddiannus, teimlai pawb y byddai angen sesiynau diweddaru rheolaidd er mwyn cynnal y sgiliau trosglwyddadwy a rheoli gweithgareddau yn ddiogel.

Hyfforddiant Helyg gweithwyr Gofalwyr Ifanc Powys:

Mae ceisio trefnu'r hyfforddiant hwn wedi amlygu cyn lleied o amser sydd gan weithwyr cynhaliol i wneud unrhyw beth sydd y tu hwnt i'w gwaith arferol.
Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r hyfforddiant fod yn weithdy 2 ddiwrnod ar gyfer gweithwyr gofalwyr Ifanc Powys a'r gweithwyr ieuenctid sydd yn eu cynorthwyo yn ystod y nosweithiau clwb.
Yn anffodus, oherwydd ymrwymiadau gwaith, dim ond 2 aelod o staff gofalwyr ifanc Powys fu ar gael i fynychu, ac felly lleihawyd y gweithdy i sesiwn 1 diwrnod.

Roedd yn hollbwysig ein bod yn parhau gyda'r hyfforddiant, oherwydd roedd y 2 weithiwr yn mynd i arwain sesiynau gweithio helyg yn eu nosweithiau clwb dros yr wythnosau dilynol. Byddai'r hyfforddiant hefyd yn galluogi i weithwyr drosglwyddo eu sgiliau yn eu clybiau yn yr hirdymor.

Allbynnau dysgu:

- Cyflwyniad i waith helyg;
- Dysgu am wahanol fathau o helyg;
- Dulliau o gynhaeafu, storio a gweithio gyda helyg;
- Iechyd a Diogelwch wrth ddefnyddio offer;
- Gofalu am offer a defnyddio'r offer cywir ar gyfer y dasg;
- Sut i ddysgu gwaith helyg i eraill.

Diwedd yr Adroddiad.